**AC(2) 01-05(p2)**

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio y Cynulliad Cenedlaethol ar Gyllid GIG Cymru 2004: Adroddiad Pwyllgor (2) 07-04**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diolch am yr adroddiad.  Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r wyth o argymhellion sydd yn yr adroddiad.

**1** ***Argymhellion***

**Canlyniadau ariannol**

**Rydym yn nodi ac yn cymeradwyo ymdrechion Adran GIG Cymru trwy gynlluniau ymadfer trylwyr a chyraeddadwy a thrwy wobrwyo perfformiad da i wrth-droi'r 'diwylliant diffyg' sydd wedi ennill ei blwyf. Rydym yn argymell yn gryf fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gytuno ar yr holl gynlluniau ymadfer a bod Adran GIG Cymru yn cadw golwg gyson ar y perfformiad sy'n deillio o'r cynlluniau ymadfer hyn fel y gellid cymryd camau unioni os a phan welir bod angen. Mae hyn yn hanfodol er lles iechyd ariannol GIG Cymru.**

***Derbyniwyd.***

Mae gwelliannau arwyddocaol yn parhau yn y broses o fynd i'r afael â'r maes hwn.  Caiff y cynlluniau cytunedig eu monitro'n ofalus, ac mae sefydliadau ar hyd a lled Cymru yn rhagweld llwyddiant o gymharu â'u cynlluniau yn 2004/05.

Mae cytuno ar gynllun ymadfer yn cael ei drin fel blaenoriaeth.  Mae sicrhau bod y cynllun ymadfer yn gadarn a chytunedig yn un o'r ffyrdd angenrheidiol ar gyfer mynd i'r afael â diwylliant a pherchenogaeth y cynllun.

Mewn rhai achosion gall gymryd peth amser i gytuno ynghylch manylion y cynllun oherwydd y bydd angen iddo o bosibl fynd i'r afael ag amrediad o gamau gweithredu cymhleth sy'n gofyn am gytundeb nifer o randdeiliaid.  Mae'r amser a dreulir yn cytuno ynghylch rhagdybiau a chamau gweithredu yn angenrheidiol i sicrhau bod y cynllun terfynol yn gadarn, yn cael ei berchenogi gan bob corff ac yn gynllun y gellir ei gyflawni.

**2** ***Argymhellion***

**Sefyllfa ariannol**

**Rydym yn nodi bod gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin gynllun ymadfer y cytunwyd arno a'i bod yn mynd rhagddi i'w roi ar waith. Rydym yn disgwyl y bydd Adran GIG Cymru yn monitro'n ofalus iawn berfformiad yr ymddiriedolaeth hon ac ymddiriedolaethau eraill gyda'u cynlluniau ymadfer ar sail y targedau y gwnaethant gytuno arnynt. Bydd hynny'n golygu y bydd gweithredu buan yn bosibl os gwelir nad ydynt mewn unrhyw ffordd yn bodloni disgwyliadau ac ymrwymiadau.**

***Derbyniwyd.***

Caiff Perfformiad yn ôl pob cynllun ymadfer ei fonitro’n fanwl ar sylfaen misol. Mae’r swyddfeydd rhanbarthol sydd mewn dialog cyson â phob sefydliad yn gallu nodi gwahaniaethau o gymharu ag unrhyw gynllun ymadfer yn gynnar yn y broses, fel y gellir gweithredu i gywiro.

**3** ***Argymhelliad***

**Perfformiad Talu**

**Rydym yn nodi gwelliant cyffredinol o ran talu anfonebau'n brydlon ond rydym yn dal yn poeni am yr amrywiaethau mawr rhwng cyrff unigol y GIG. Rydym yn pwysleisio bod angen i holl gyrff y GIG gyrraedd y nod o dalu 95 y cant o'r biliau di-ddadl yn ôl eu nifer cyn pen 30 niwrnod. Deallwn y bydd hyn yn darged ariannol i'r holl gyrff yn 2003-04. Dylai hyn helpu i ddiogelu cyflenwyr bach a chanolig rhag dioddef anfantais. Rydym yn disgwyl i Adran GIG Cymru gadw golwg fanwl ar hyn a chymryd camau priodol a buan yn erbyn cyrff sy'n methu â chwrdd â'u targedau.**

***Derbyniwyd.***

Caiff y Perfformiad Talu ei fonitro gan y Rhanbarthau ar sylfaen misol. Mae Perfformiad yn dal i wella yn y rhan fwyaf o sefydliadau, a chytunwyd ar gamau gweithredu gyda phob sefydliad sy’n methu taro’r targed.

**4** ***Argymhelliad***

**Ailstrwythuro GIG Cymru**

**Byddwn yn disgwyl â diddordeb am ganlyniadau cyflwyno'r cardiau sgorio cytbwys a gofynnwn am gael ein hysbysu am y canlyniadau, y casgliadau a'r camau gweithredu y bydd arolwg Gorffennaf 2004 yn esgor arnynt. Bwriadwn ddod yn ôl at y pwnc pwysig hwn yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl y bydd Adran GIG Cymru am barhau i dracio costau rhedeg y strwythur newydd a chostau pontio'r ad-drefnu er mwyn sicrhau y cedwir at y targedau a bennwyd gan y Gweinidog. Rydym yn croesawu'r ymateb positif i'r pynciau a'r argymhellion a godwyd yn adroddiad Wanless a byddwn yn sicrhau bod yr Adran yn sicrhau bod cynlluniau gweithredu lleol Wanless yn ddigon cadarn a chyraeddadwy fel bod y newidiadau a'r gwelliannau angenrheidiol er lles pobl Cymru yn cael eu gwneud.**

***Derbyniwyd.***

Cedwir at y targedau ar gyfer costau ailstrwythuro a osodwyd gan y Gweinidog yn gymaint â bod y dyraniadau a wneir i’r cyrff newydd yn cael eu cadw o fewn y targedau gwreiddiol. Caiff y dyraniadau eu huwchraddio ar gyfer chwyddiant yn unig. Caiff y costau wedyn eu monitro drwy’r adroddiadau ariannol arferol a gyflwynir gan bob corff.

Mae cynllunio athroniaeth ac elfennau system gymhellion ar draws y sector iechyd a gofal, gan adeiladu ar yr hyn sy’n bodoli eisoes, ac yn cynnwys:

- ymreolaeth haeddiannol
- system wobrwyo
- systemau ymyriad

yn faes gwaith allweddol a ddatblygir dan nawdd rhaglen weithredu Wanless. Mae’r gwaith yn cael ei ddatblygu gan grwp sy’n cynnwys cynrychiolwyr ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, a bydd yr adroddiad terfynol a’r argymhellion yn cael eu cyflwyno i’r Gweinidog yn Rhagfyr.

Yn y cyfamser, sefydlwyd cynllun treialu ar gyfer 2004-05, a neilltuwyd swm o £3 miliwn i’w ddyrannu i gyrff y GIG yn ôl set o feini prawf y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

**5** ***Argymhellion***

**Llywodraethu Corfforaethol**

**Rydym yn croesawu'r ymdrechion i gydymffurfio â'r safonau craidd yn**

**2003-04. Er ein bod yn siomedig bod rhai wedi methu, nodwn yr aed i'r afael â'r rhain ac anogwn Adran GIG Cymru i sicrhau bod cydymffurfio'n parhau'n flaenoriaeth uchel yn 2004-05.**

***Derbyniwyd.***

Y mae cydymffurfio â Chanllawiau diweddaraf y Trysorlys yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar gyfer 2004-05. Bydd yr adran yn canolbwyntio ar sicrhau bod pob Ymddiriedolaeth a phob Bwrdd Iechyd Lleol yn parhau i gryfhau eu prosesau Rheoli Mewnol a bod pob Bwrdd mewn safle i lofnodi datganiadau cynhwysfawr ar Reoli Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ym mis Mawrth 2005.

Cyhoeddir yn 2004-05 Ganllawiau pellach ar rôl y Bwrdd yn y broses o ddarparu sicrwydd ar reolaethau mewnol. Bydd y canllawiau'n egluro ymhellach gyfrifoldeb y Bwrdd mewn perthynas â Rheolaeth Fewnol, yn dangos y cyswllt rhwng amcanion sefydliadol a rheolaeth risg ac yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut i adeiladu fframwaith sicrwydd sy'n gysylltiedig â phrif flaenoriaethau sefydliadol. Y nod yw sicrhau bod rhaid i reolaeth risg fod yn rhan integredig o'r trefniadau rheoli a ddefnyddir gan y sefydliad.

Bydd yr Adran yn parhau i weithio'n agos â Chronfa Risg Cymru yn y broses o gefnogi sefydliadau ynglyn â datblygu systemau rheoli risg drwy ddarparu cyngor, datblygu addysg mewn rheoli risg ym maes gofal iechyd a hyrwyddo'r arfer o gyfnewid gwybodaeth ar arfer da a'r gwersi a ddysgwyd.

**6** ***Argymhellion***

**Cronfa Risg Cymru**

**Rydym yn falch bod hen ddiffygion Cronfa Risg Cymru yn cael sylw. Rydym yn disgwyl y bydd Adran GIG Cymru yn sicrhau bod cyrff y GIG yn parhau i gymryd camau i leihau'r achosion o esgeuluster ac anaf personol y bydd yn rhaid talu iawndal arnynt ac yn annog yr Adran i barhau i ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatrys achosion yn gyflym ac yn deg.**

***Derbyniwyd.***

Un ffordd o leihau'r nifer o achosion o esgeuluster clinigol yw atal yr achosion rhag codi yn y lle cyntaf.

Mae Safonau Rheoli Risg Cymru wedi'u datblygu ac yn cael eu diweddaru'n gyson i helpu cyrff y GIG yng Nghymru i reoli'u hunain yn well wrth amddiffyn cleifion rhag risgiau o bob math. Mae'r Adran yn ddiweddar wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar Ddatganiad o Safonau Gofal Iechyd. Bydd datblygu'r datganiad yn gosod fframwaith ar gyfer gwella safon a diogelwch y gofal iechyd a ddarperir dan y GIG yng Nghymru.

Mae'r Adran wedi llunio cytundeb gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) i gyflawni ei swyddogaethau yng Nghymru. Mae'r Asiantaeth wedi datblygu a gweithredu nifer o ddatrysiadau diogelwch cleifion ar gyfer staff y GIG a fydd yn gymorth i leihau digwyddiadau sy'n gallu arwain at achosion o esgeuluster clinigol. Er enghraifft, atal gorddos damweiniol o botasiwm mewnwythiennol, safoni rhifau galw mewn achos o ddamweiniau, lleihau'r niwed y mae methotrechsad geneuol yn ei achosi, a gwella diogelwch dyfeisiau arllwys. Mae system adrodd a dysgu cenedlaethol yr Asiantaeth yn cael ei gweithredu ar draws Lloegr a Chymru. Bydd hon yn galluogi pobl i ddysgu o ddigwyddiadau ynglyn â diogelwch y claf a fydd yn digwydd yn y dyfodol, a bydd yn arwain at ychwaneg o ddatrysiadau ymarferol. Yn cydredeg â hyn, mae'r NPSA yn darparu hyfforddiant ar ddadansoddi achosion gwreiddiol a gaiff ei ddefnyddio i archwilio digwyddiadau mewn modd trylwyr a systematig.

Yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau ar gyfer lleihau costau cyfreithiol drwy ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfodau, cytunwyd y dylid sefydlu prosiect treialu ar gyfer system garlam i ddatrys achosion sydd o werth bach i ganolig. Gobeithir y bydd y cynllun treialu yn arwain at ddatblygu dull mwy ymatebol, fydd yn canolbwyntio ar y Claf, ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n gallu darparu datrysiadau wedi'u teilwra'n nes at anghenion unigol y Claf. Gobeithir hefyd y bydd y cynllun treialu, gyda'i bwyslais ar ddatrys cyflym, yn gymorth i fynd i'r afael â chostau cynyddol datrys achosion o esgeulustod clinigol a'r trallod a ddioddefir gan y rhai sy'n hawlio a'r clinigwyr fel ei gilydd pan fo'n rhaid iddynt fynd drwy broses llys draddodiadol. Mae'r gweithgor a sefydlwyd i ddatblygu hyn yn agos at gwblhau cynigion ar gyfer cynllun "datrys cyflym" y disgwylir iddo gael ei lansio'n fuan.

**7** ***Argymhelliad***

**Twyll yn y GIG**

**Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan gyrff y GIG yng Nghymru i gynyddu'u hymwybyddiaeth o dwyll ac maent yn falch i nodi fod amcangyfrif Gwasanaeth Atal Twyll y GIG o lefel y twyll fferyllol yn parhau i ostwng. Rydym yn annog Adran GIG Cymru i barhau i weithio gyda'r cyrff atal twyll yng Nghymru i ostwng ymhellach lefel y twyll ym mhob agwedd ar waith y GIG.**

***Derbyniwyd.***

Mae'r Cynulliad yn diweddaru ei gytundebau gyda'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch a chyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys (sy'n cynnal Tîm Gwasanaeth Gweithredol Cymru) i barhau â'i ymdrechion i leihau ymhellach y lefel o dwyll ym mhob agwedd ar weithgreddau'r GIG.

Mae Cyfarwyddiadau diwygiedig ar gyfer cyrff y GIG yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Bydd y rhain yn defnyddio dull cyson ac effeithiol o atal twyll mewn cyrff iechyd yng Nghymru ac yn darparu fframwaith clir a chryno ar gyfer yr hyn a wneir i atal twyll. Byddant yn cryfhau'r fframwaith cenedlaethol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'n lleol y gwaith atal twyll heb ychwanegu baich biwrocrataidd cyffredinol at faich y GIG yng Nghymru.

Disgwylir y cyflwynir yn fuan wiriadau dilysu ar gyfer cleifion sy'n gwneud cais am eithrio o daliadau deintyddol, a disgwylir i daliadau cosb gael eu cyflwyno a'u gweithredu'n fuan. Mae disgwyl i Gyfarwyddiadau gael eu cyhoeddi'n fuan i ganiatáu i'r Bwrdd Ymarfer Deintyddol ymgymryd â'r swyddogaeth hon yng Nghymru.

Yn ystod mis Hydref, bu aelodau o Dîm Gwasanaeth Gweithredol Cymru ac Arbenigwyr Lleol ar Atal Twyll yng Nghymru yn cymryd rhan mewn Mis Ymwybyddiaeth Twyll i gynorthwyo yn y dasg o godi proffil gwaith atal twyll a nodi'r rôl y gall staff rheng flaen ei chwarae yn y broses o fynd i'r afael â thwyll yn y GIG yng Nghymru. Arddangoswyd gwybodaeth mewn nifer o ysbytai, a thrafodwyd materion yn ymwneud â thwyll gyda staff y GIG. Ymgymerwyd ag ymarfer tebyg y llynedd, ac o ganlyniad gwelwyd cynnydd yn nifer y galwadau a adroddai am achosion amheuaeth o dwyll.

Bwriedir lansio yn fuan ar draws y GIG yng Nghymru ymarfer rhagweithiol cenedlaethol ar dwyll mewn perthynas â'r gyflogres. Mae hyn yn canlyn o'r ymarfer a gynhaliwyd y llynedd i ddatgelu ac atal twyll gan asiantaethau'r GIG a staff banciau. Amlygwyd nifer o achosion gan yr ymarfer, ac eisoes fe gyhuddwyd un nyrs o gyfrifyddu ffug ac ymddangosodd gerbron Llys y Goron Caerdydd lle cafodd ei dedfrydu i naw mis o garchar.

## 8 *Argymhellion*

**Costau nyrsys asiantaeth**

**Rydym yn dal yn ofidus bod costau nyrsys asiantaeth yn parhau i dyfu ac effaith bosibl gorddibynnu ar staff dros-dro ar ansawdd y gofal i gleifion. Rydym yn pwyso ar Adran GIG Cymru a chyrff y GIG i gadw golwg fanwl ar y costau hyn ac i gymryd camau pellach i'w gostwng. Mae angen i'r GIG yng Nghymru recriwtio a chadw staff nyrsio o ansawdd da a llunio trefniadau cyflogi fyddai'n rhoi i'r staff yr hyblygrwydd y maent yn chwilio amdano.**

***Derbyniwyd.***

Mae Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn dechrau ei chael yn haws recriwtio staff nyrsio parhaol wrth i'r niferoedd sy'n cwblhau hyfforddiant nyrsio yng Nghymru gynyddu yn dilyn buddsoddi ychwanegol mewn hyfforddi ers 1998. Mae swyddi gwag hirdymor hefyd wedi gostwng yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r galw am wasanaethau'r GIG yn parhau i godi. Mae nifer o Ymddiriedolaethau yng Nghymru wedi gostwng eu dibyniaeth ar nyrsys asiantaeth, ond nid yw pob un ohonynt wedi gwneud hynny. Mae prif weithredwyr yr Ymddiriedolaeth yn gweithio i weithredu contract asiantaeth ar gyfer Cymru gyfan a fydd yn safoni cost ac ansawdd y staff asiantaeth a ddefnyddir gan y GIG yng Nghymru.